



## **CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

### **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976**

### **AMODAU TRWYDDEDU GWEITHREDWYR CERBYDAU HURIO PREIFAT**

#### **Cyffredinol**

1. Rhaid i'r gweithredwr fod yn berson addas a phriodol ym marn y Cyngor.
2. Bydd trwyddedau gweithredwyr yn aros mewn grym tan ddiwedd un flwyddyn ar ôl diwrnod olaf y mis cyn mis eu dyroddi.
3. Ni ddyroddir unrhyw drwydded cerbyd hyd nes y telir y ffi briodol. Os telir â siec a gaiff ei gwrthod wedyn, bydd unrhyw drwydded a ddyroddir yn ddi-rym.
4. NID yw trwyddedau gweithredwyr yn drosglwyddadwy ac mae'n rhaid eu dychwelyd i swyddog awdurdodedig y Cyngor.
5. Rhaid i'r gweithredwr roi i'r Cyngor fanylion y safleoedd y mae neu y bydd ei fusnes hurio'n cael ei gynnal ohonynt a'r cyfleusterau a ddarperir i atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau, a rhaid iddo fodloni'r Cyngor bod y safleoedd hynny'n cydymffurfio â'r holl ofynion cynllunio a statudol eraill sy'n ymwneud â'r fath safleoedd, ac os yw neu os oedd y safleoedd hynny'n dai Cyngor yna rhaid darparu cydsyniad i'r defnydd hwnnw yn achos tenantiaeth gyfredol, a chadarnhad nad oes unrhyw achos o dorri unrhyw gyfamod cyfyngu yn achos tŷ Cyngor a werthwyd.
6. Rhaid i'r gweithredwr sicrhau ei fod yn gweithredu ei fusnes yn y fath fodd nad yw'n andwyol i amwynderau'r gyndogaeth; a'i fod yn sicrhau nad yw unrhyw niwsans yn codi o ganlyniad i'w weithgareddau.
7. Rhaid i weithredwyr sicrhau cyn belled ag y bo modd y cydymffurfir yn llwyr, bob amser, â'r amodau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau'r holl gerbydau a gyrwyr o dan eu rheolaeth.

#### **Cofnodion**

8. Rhaid cadw'r cofnod y mae'n ofynnol i'r gweithredwr ei gadw o dan Adran 56(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (mewn ffurf a ragnodir gan y Cyngor) mewn llyfr addas, y mae ei dudalennau wedi'u rhifo'n olynol a rhaid i'r gweithredwr gofnodi neu

beri cofnodi ynddo, cyn dechrau pob taith, y manylion canlynol am bob bwciad cerbyd hurio preifat a wahoddir neu a dderbynnir ganddo:

- a) amser a dyddiad y bwciad;
  - b) enw a chyfeiriad yr huriwr;
  - c) sut y gwnaethpwyd y bwciad (h.y. dros y ffôn, galw'n bersonol ac ati)
  - d) amser codi'r huriwr
  - e) man codi'r huriwr
  - f) y gyrchfan
  - g) yr amser y dynodwyd gyrrwr i'r bwciad
  - h) rhif cofrestru'r cerbyd a ddynodwyd i'r bwciad
  - i) sylwadau (gan gynnwys manylion unrhyw is-gontract)
9. Rhaid i'r gweithredwr gadw cofnodion o fanylion yr holl gerbydau hurio preifat mae'n eu gweithredu. Rhaid i'r manylion hyn gynnwys manylion perchnogion, rhifau cofrestru a gyrrwr y cerbydau hynny, dyddiad eu prynu, newidiadau yn y dyluniad neu'r adeiladwaith, dyddiad eu gwerthu/dinistrio, ac enw a chyfeiriad prynwr newydd.
10. Rhaid i'r holl gofnodion a gedwir gan y gweithredwr gael eu diogelu am gyfnod o chwe mis o leiaf ar ôl dyddiad y cofnod diwethaf a rhaid iddynt gael eu dangos, ar gais, i unrhyw un o swyddogion awdurdodedig y Cyngor neu Gwnstabl i gael eu harchwilio.

### **Safon gwasanaeth**

11. Rhaid i'r gweithredwr ddarparu gwasanaeth prydlon, effeithlon a dibynadwy i'r cyhoedd ar bob adeg resymol ac at y diben hwn rhaid iddo sicrhau yn benodol:-
- a) Pan fo cerbyd hurio preifat wedi cael ei hurio i fod yn bresennol ar amser ac mewn lle a benodwyd, y bydd y cerbyd, oni fo achos digonol yn ei arafu neu ei rwystro, yn bresennol yn brydlon ar yr amser ac yn y lle a benodwyd.
  - b) Bod unrhyw safleoedd y mae'r gweithredwr yn eu darparu ac mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, pa un ai at ddiben bwcio neu aros, yn cael eu cadw'n lân, a'u gwresogi, eu hawyru a'u goleuo'n ddigonol.
  - c) Bod seddi digonol mewn unrhyw fan aros a ddarperir gan y gweithredwr.
  - d) Bod unrhyw gyfleusterau ffôn a chyfarpar radio a ddarperir yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da a bod unrhyw namau'n cael eu hatgyweirio'n brydlon.
  - e) Bod unrhyw gyfarpar radio a ddarperir gan y gweithredwr yn cael ei archwilio ar ei gost yntau o leiaf unwaith y flwyddyn gan gwmni a gymeradwyir gan y Cyngor a bod tystysgrif bod y cyfarpar mewn cyflwr da'n cael ei chyflwyno i'r Cyngor cyn pen mis ar ôl yr archwiliad.

### **Cwynion**

12. Rhaid i'r gweithredwr, yn syth ar ôl eu cael, hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw gwynion am gontract i hurio neu gontract honedig i hurio mewn perthynas â, neu'n deillio o, ei fusnes ac am y camau (os oes rhai) mae'r gweithredwr wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â hwy.

### **Newid cyfeiriad**

13. Rhaid i'r gweithredwr hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw newid yn ei gyfeiriad (gan gynnwys unrhyw gyfeiriad mae'n gweithredu ohono neu fel arall yn cynnal ei fusnes fel gweithredwr ohono) yn ystod cyfnod y drwydded cyn pen saith diwrnod ar ôl i'r fath newid ddigwydd.

### **Hysbysu am gollfarnau**

14. Rhaid i'r gweithredwr cyn pen saith diwrnod ddatgelu i'r Cyngor yn ysgrifenedig fanylion unrhyw gollfarn a osodir arno (neu os cwmni neu bartneriaeth yw'r gweithredwr, ar unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded.